



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Safonau cenedlaethol ar gyfer cynghorwyr herio



Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 149/2014
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2014

Safonau cenedlaethol ar gyfer cynghorwyr herio

Cynulleidfa	Consortia rhanbarthol; cynghorwyr herio; prif weithredwyr a chyfarwyddwyr addysg mewn cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru; awdurdodau esgobaethol; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; cyrff cenedlaethol a lleol eraill sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru.
Trosolwg	Mae'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cynghorwyr Herio yn amlinellu'r egwyddorion a'r meini prawf yr ydym yn bwriadu i bob cynghorydd herio eu bodloni. Mae'r safonau'n adlewyrchu dyheadau'r <i>Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol</i> , a newid yn y ffordd y byddwn yn gweithio gydag ysgolion, gan eu herio i wella, ond hefyd eu cefnogi i feithrin gallu a chynnal gwelliannau.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Y Gangen Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion Yr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2082 6050 e-bost: SMED@cymru.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau
Dogfennau cysylltiedig	<i>Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol</i> (2014)

Cynnwys

Cefndir	2
Y model cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion	2
Her Ysgolion Cymru	3
Hyfforddi a datblygu	4
Safonau	5
Dyfarnu statws Cynghorydd Herio	6
Pedair agwedd allweddol	7
Agwedd 1: Cefnogi ysgolion i gynnal hunanwerthusiad a chyflwyno gwelliannau	9
Agwedd 2: Broceru cefnogaeth ac ymyriad effeithiol	11
Agwedd 3: Datblygu arweinyddiaeth ysgolion	13
Agwedd 4: Meithrin gallu rhwng ysgolion	16


Cefndir

Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad ysgrifenedig yn nodi ei fod yn derbyn cynnig gan lywodraeth leol i ddiogelu cyllid gwella ysgolion o fewn y setliad cyllideb ar gyfer llywodraeth leol, ac i weithio ar y cyd i lunio Model Rhanbarthol Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion.

Penodwyd grŵp gorchwyl a gorffen bychan lefel uchel o arbenigwyr allanol fel grŵp i gynghori'r Gweinidog. Dros y misoedd diwethaf, mae cynrychiolwyr allweddol o Lywodraeth Cymru, consortia, llywodraeth leol a phenaethiaid wedi cyfarfod er mwyn llunio'r model rhanbarthol newydd ar y cyd o dan arweiniad y grŵp o arbenigwyr.

O dan y model newydd, bydd trefniadau rhanbarthol presennol ar gyfer gwella ysgolion yn cael eu cryfhau. Mae'r model cenedlaethol yn seiliedig ar weledigaeth o gonsortia rhanbarthol gwella ysgolion yn gweithio ar ran awdurdodau lleol er mwyn arwain, trefnu a chydlynu gwelliannau ym mherfformiad ysgolion ac yn addysg pobl ifanc. Mae'r Cynghorydd Herio yn ganolog i'r gwaith hwn. Mae'r papur hwn yn nodi'r safonau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer y swyddogaeth hon.

Y model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol



Y model cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion

Mae'r system ranbarthol newydd yn arwain newid uchelgeisiol sy'n gweddnewid, ac yn sbarduno ysgolion i gyflwyno gwelliannau o'r tu mewn. Prif gyfrifoldeb y cynghorwyr herio yw meithrin gallu mewn ysgolion a sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau i ysgogi a chynnal gwelliannau sy'n codi safonau ac sy'n darparu addysg

o ansawdd uchel. Bydd y cyngorwyr herio yn asiant dros newid, gan gefnogi a herio arweinwyr yr ysgolion i wella perfformiad a broceru cefnogaeth sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr. Gall consortiwm gyflogi cyngorwyr yn amser llawn neu ddod â nhw i mewn yn rhan-amser.

Bydd gan gyngorwyr herio'r rhinweddau canlynol:

- *profiad o arwain mewn ysgol lwyddiannus;*
- *arbenigedd yn y gwaith o ddadansoddi a defnyddio data gwella ysgolion;*
- *dealltwriaeth a phrofiad o sut i weithredu camau i wella ysgolion; a*
- *sgiliau rhyngpersonol cryf.*

Bydd hyn yn golygu cryn newid o ran y swyddogaethau a'r sgiliau angenrheidiol. Bydd angen hygredded ar gyngorwyr herio wrth eu gwaith a dylent ennyn parch ymhlith ysgolion. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu hyfforddiant cenedlaethol i'r rheini a fydd yn ymgymryd â swydd y cyngorwyr herio fel mater o frys. Bydd angen i'r consortia, felly, hwyluso'r hyfforddiant hwn a chynnig secondiadau hefyd, lle bynnag y bo'n hynny'n bosibl, i helpu unigolion i drosglwyddo i'r swyddogaeth newydd hon. Y consortia fydd yn gyfrifol am enwi staff i gymryd rhan yn yr hyfforddiant, a bydd angen sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad cadarn ar gyfer y rheini a fydd yn ymgymryd â swyddogaeth y cyngorwyr herio. Bydd angen i fyrddau gweithredol a rheolwyr gyfarwyddwyr y consortia asesu ar fyrder allu eu staff i fodloni'r gofynion newydd a thrafod â'r undebau sy'n eu cynrychioli fel bod penaethiaid ac arweinwyr ysgolion yn cael eu herio a'u cefnogi gan gyngorwyr o safon.

Her Ysgolion Cymru

Mae rhaglen Her Ysgolion Cymru yn un o elfennau allweddol strategaeth gwella ysgolion Llywodraeth Cymru. Mae'n canolbwyntio ar ysgolion uwchradd yng Nghymru sy'n wynebu'r heriau mwyaf o ran eu hamgylchiadau a'u datblygiad.

Fel rhan o'r strategaeth gyfan ar gyfer gwella ysgolion, a nodir yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, mae Her Ysgolion Cymru yn gweithio i hwyluso ysgolion sydd wedi bod yn y bandiau isaf am y tair blynedd diwethaf, ac sydd â nifer uchel iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Nod yr Her yw grymuso'r Ysgolion Llwybrau Llwyddiant hyn, a'u clystyrau o ysgolion cynradd, gan sicrhau bod ganddynt y gallu a'r adnoddau i wella eu hunain yn barhaus drwy ddatblygu eu harferion da presennol, ynghyd â'u gallu i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael a monitro effaith eu hymdrechion. Bydd y rhaglen yn pwysleisio'r angen i gydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau canlyniadau cynaliadwy, gan annog y sawl sy'n cymryd rhan i wneud hynny ar bob lefel o'r system: sef rhwng cymheiriaid, rhwng ysgolion, ar draws awdurdodau lleol a rhwng consortia addysg rhanbarthol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn symud yr wybodaeth berthnasol i'r llefydd

priodol, gan sicrhau bod llawer o ysgolion yng Nghymru yn cael cyfle i elwa wrth ddatblygu partneriaethau, rhannu arbenigedd a dysgu oddi wrth ei gilydd.

O fewn y strategaeth gyffredinol ar gyfer gwella ysgolion, fel y'i nodir yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, mae Her Ysgolion Cymru yn rhaglen benodol ar gyfer ysgolion sydd wedi bod yn y bandiau isaf dros y tair blynedd diwethaf, ac sydd â nifer uchel iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Nod yr Her yw grymuso'r Ysgolion Llwybrau Llwyddiant hyn, gan sicrhau bod ganddynt y gallu a'r adnoddau i wella eu hunain yn barhaus drwy ddatblygu eu harferion da presennol, ynghyd â'u gallu i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael a monitro effaith eu hymdrechion yn effeithiol.

O dan raglen Her Ysgolion Cymru, penodwyd grŵp o Gynghorwyr Herio. Gan weithio'n uniongyrchol gyda'r Ysgolion Llwybrau Llwyddiant, y Consortia Addysg Rhanbarthol yw eu cyflogwyr, er bod eu swyddi'n cael eu hariannu gan Her Ysgolion Cymru. Mae'r Cynghorwyr yn gweithio fel tîm cenedlaethol, gan gyfarfod fel grŵp bob mis er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd, datrys problemau a chymryd rhan yn eu datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain. Byddant hefyd yn cydweithio â Chynghorwyr yr Her sy'n gweithio gydag ysgolion nad ydynt yn rhan o Her Ysgolion Cymru – fel y nodir yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol.

Trwy weithredu fel hyn, gallant gydweithio i sicrhau bod cynnydd yr Ysgolion Llwybrau Llwyddiant yn cyfrannu at wella'r system addysg yn ei chyfanrwydd. Y Cynghorydd Herio yw'r cynghorydd penodol ar gyfer ei Ysgol Llwybrau Llwyddiant, a bydd y Cynghorydd hwnnw'n ymgymryd â holl elfennau rôl y Cynghorydd Herio, yn ogystal ag yn rhoi sylw i ofynion rhaglen Her Ysgolion Cymru.

Hyfforddi a datblygu

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni allanol i gynllunio a chyflwyno hyfforddiant a datblygiad cenedlaethol ar gyfer Cynghorwyr Herio. Bydd hyn yn sicrhau y darperir lefel sylfaenol o hyfforddiant yn genedlaethol er mwyn cynorthwyo cynghorwyr i ddeall sut i gefnogi ysgolion i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu, ac i feithrin gallu ym maes arweinyddiaeth er mwyn iddynt allu cyflawni'r cylch blynyddol o welliannau y cytunwyd arno.

Bydd consortia rhanbarthol wedyn yn gyfrifol am deilwra'r hyfforddiant a'r datblygiad fel ei fod yn cyfateb i anghenion y cynghorwyr. Bydd hon yn rhaglen fodiwlaid ac yn defnyddio dull dysgu cyfunol a fydd yn cynnwys; cysgodi, mentora, gweithgareddau ymchwil/ymholi, gweithdai ac ati.

Mae yna lawer o arweinwyr systemau presennol a darpar Gynghorwyr Herio nad ydynt o bosibl wedi cael "profiad o arwain mewn ysgol lwyddiannus" ond sydd wedi cael dylanwad effeithiol iawn ar ysgolion. Bydd angen i gonsortia rhanbarthol benderfynu sut i roi mwy o hyfforddiant a datblygiad i'r cynghorwyr hyn fel eu bod yn cyflawni'r safonau angenrheidiol. Ceir disgwyliad clir y bydd pob cynghorydd herio penodedig yn cyflawni'r safonau. Os na fydd hynny'n digwydd, bydd angen i gonsortia rhanbarthol weithredu'n briodol. Mae llwyddiant y strategaeth ranbarthol newydd yn dibynnu i raddau sylweddol ar ansawdd y cynghorwyr herio. Mae'n rhaid iddynt allu cynorthwyo ysgolion i weithredu gwelliannau sylweddol a chynaliadwy. Mae polisïau a phrosesau rheoli perfformiad cadarn yn hanfodol er mwyn sicrhau cynghorwyr o safon uchel.

Cynhelir y Rhaglen Hyfforddiant Genedlaethol trwy;

- Gweithdy deuddydd ar Fedi 8^{fed} a 9^{fed} 2014
- Hyfforddiant Estyn ym mis Ionawr a Chwefror

Bydd yr hyfforddiant yn seiliedig ar y safonau cenedlaethol. Yn ogystal, gallai fod cyfle i gynnal modiwlau hyfforddi ar gyfer meysydd datblygu penodol y gellir eu cynnal yn rhanbarthol. Bydd darpar Gynghorwyr Herio yn eu hasesu eu hunain o'i gymharu â'r safonau yn ystod y gweithdy deuddydd, a bydd asesiad gan gymheiriaid yn rhan annatod o'r rhaglen hon.

Bydd cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ychwanegol yn cael eu nodi yn ystod y rhaglen genedlaethol a bydd rheolwyr llinell wedyn yn darparu cyfleoedd i ychwanegu at yr hyfforddiant cenedlaethol ar lefel ranbarthol.

Safonau

Mae'r gyfres hon o safonau yn datblygu'r safonau presennol a gynlluniwyd gan ISOS. Mae'r newidiadau'n adlewyrchu'r ffaith ein bod yn symud oddi wrth arweinwyr systemau a oedd yn gweithio gydag ysgolion gan eu herio i wella, tuag at system sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi ysgolion i feithrin gallu a chynnal gwelliannau. Bydd ysgolion yn cael eu cefnogi i arwain eu gwelliannau eu hunain, a byddant yn atebol am hynny.

Nod y safonau hyn yw gwneud yn siŵr bod gan gynghorwyr herio'r sgiliau a'r wybodaeth gywir i wneud eu gwaith yn effeithiol ac i ehangu a chryfhau effaith y gefnogaeth, yr her a'r ymyriad ar safonau ac ar allu'r ysgol i wella. **I'r Cynghorydd Herio llwyddiannus, bydd ymarfer effeithiol yn dylanwadu ar well deilliannau i ddysgwyr a mwy o allu yn yr ysgol i arwain y dysgu a'r gwella.**

Dyfarnu statws Cynghorydd Herio

Ni fydd statws Cynghorydd Herio'n cael ei ddyfarnu ond i ymgeiswyr addas sy'n cyflawni'r safonau a ddisgrifir yn y ddogfen hon. Dyma'r broses o sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cyflawni:

1. Cwblhau'r rhaglen hyfforddiant genedlaethol (gan gynnwys cymhwyso'n llwyddiannus trwy hyfforddiant Estyn)
2. Cwblhau hunanasesiad
3. Cwblhau asesiad cymheiriaid
4. Asesiad rheolwr llinell

Ar ôl i'r ymgeisydd gwblhau pob cam o'r broses yn llwyddiannus, bydd yn cael achrediad statws 'Cynghorydd Herio' a fydd yn ddilys am 3 blynedd. Bydd hyn yn dangos bod yr unigolyn wedi cwblhau'r broses asesu a bod ganddo hawl i'w alw ei hun yn "Gynghorydd Herio" a chyflawni'r swyddogaeth honno.

Pedair agwedd allweddol

	Agwedd	Sgiliau	Gwybodaeth ac arbenigedd
1	Cefnogi ysgolion i gynnal hunanwerthusiad a chyflwyno gwelliannau	• Sefydlu a chynnal cysylltiadau • Cyfathrebu'n eglur • Defnyddio tystiolaeth i werthuso ansawdd y ddarpariaeth • Deall a dadansoddi data • Cefnogi arweinwyr i arsylwi gwersi a gwella ansawdd yr addysgu i fod yn dda neu'n rhagorol • Hwyluso proses effeithiol o osod targedau • Arwain neu gefnogi sgysiau anodd a rhoi adborth • Ysgrifennu adroddiadau'n glir ac yn gryno • Rhoi'r cymhelliant i arweinwyr ysgolion wella	• Dulliau effeithiol o ymgysylltu • System genedlaethol ar gyfer gwella a chategoreiddio ysgolion • Gwerthuso perfformiad ar draws gwahanol gategoriâu o ysgolion • Nodi'r camau nesaf sydd eu hangen er mwyn symud ysgol i gategori uwch a gweithio gyda'r ysgol i gyflawni hyn • Ymchwil gyfredol ar addysgu a dysgu a nodweddion ymarfer effeithiol • Defnyddio targedau er mwyn cyflymu cynnydd • Strategaethau effeithiol o ran asesu ar gyfer dysgu gan ddefnyddio data ansoddol a meintiol • Systemau ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion • Rheoliadau ym maes cymwysterau a'r cwricwlwm • Modelau cwricwlwm • Fframwaith a phroses arolygu Estyn
2	Broceru cefnogaeth ac ymyriad effeithiol	• Canfod adnoddau i ddiwallu anghenion yr ysgol • Hwyluso a broceru cefnogaeth • Monitro a gwerthuso effaith • Broceru cefnogaeth rhwng ysgolion	• Sicrhau bod y gefnogaeth yn cyfateb i allu ac anghenion yr ysgol - creu atebion pwrpasol • Asesu strategaethau ar gyfer gwella addysgu a dysgu ac arweinyddiaeth • Cefnogaeth ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder • Adnoddau sydd ar gael yn yr Awdurdod Lleol/ y rhanbarth / rhywle arall • Ymyriadau / adnoddau llwyddiannus i fynd i'r afael â phroblemau • Gwerthuso effaith • Cefnogaeth i lywodraethwyr ysgolion

3	Datblygu arweinyddiaeth ysgolion	• Asesu ansawdd timau arweinyddiaeth ysgolion • Sefydlu disgwyliadau uchel • Mentora a hyfforddi, a chefnogi eraill fel mentoriaid a hyfforddwyr • Modelu a herio arweinyddiaeth • Datblygu atebolrwydd unigol ac ar y cyd • Defnyddio tystiolaeth i adolygu perfformiad ac effaith • Hwyluso a chefnogi	• Grymuso arweinwyr ysgolion i wneud penderfyniadau anodd • Sicrhau ymrwymiad i wella • Mentora a hyfforddi effeithiol • Deallusrwydd emosiynol • Arweinyddiaeth effeithiol i'r ysgol • Cynllunio strategol • Gofynion a meini prawf adolygu perfformiad • Deall swyddogaethau'r consortia rhanbarthol a chyfrifoldebau statudol yr Awdurdod Lleol • Perfformiad a systemau da ac ardderchog • Cynllunio ar gyfer olyniaeth, rheoli talent, modelau arweinyddiaeth effeithiol, gan gynnwys arweinyddiaeth swyddogion gweithredol
4	Meithrin gallu rhwng ysgolion	• Gwerthuso gallu ysgolion da a nodi ffyrdd y gallant gefnogi ysgolion eraill • Datblygu strategaethau er mwyn symud ysgolion da i fyny i fod yn ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol • Datblygu rhaglenni gydag ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol ac ysgolion eraill er mwyn gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu a meithrin gallu ym maes arweinyddiaeth	• Cefnogaeth ac ymyriad a arweinir gan yr ysgol • Datblygu partneriaethau er mwyn gwella gallu • Arweinyddiaeth ardderchog ar gyfer yr ysgol • Meini prawf ar gyfer ysgolion ardderchog/ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol • Creu a datblygu mwy o ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol

Agwedd 1: Cefnogi ysgolion i gynnal hunanwerthusiad a chyflwyno gwelliannau

Mae'r agwedd hon yn hanfodol er mwyn rhoi'r Model Cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion ar waith. Dod i adnabod a deall perfformiad yr ysgol trwy ddefnyddio ystod o ddata a gwybodaeth. Bydd angen herio perfformiad ysgolion yn briodol ar bob cam o'r model categoreiddio a gwella. Bydd angen i Gynghorwyr Herio feithrin gallu trwy adolygu hunanwerthusiad yr ysgol a ffurfio barn ynglŷn â'i gywirdeb a phriodoldeb blaenoriaethau allweddol yr ysgol.

Sgiliau angenrheidiol	Gwybodaeth ac arbenigedd angenrheidiol
Sefydlu a chynnal cysylltiadau Y gallu i sefydlu, cynnal a meithrin tîm o bobl sy'n cyfrannu at ddatblygiad yr ysgol fel bod gwybodaeth yn cael ei rhannu, data a gweithgarwch yn dryloyw, systemau a phrosesau'n gyson ac yn cael eu deall yn dda, a bod pawb yn deall eu swyddogaeth yn eglur; y gallu i ddefnyddio gwahanol ddulliau gwaith ar gyfer gwahanol gyd-destunau a phobl; y gallu i ddylanwadu, i gyd-drafod ac i gyflwyno negeseuon anodd a dal i gynnal perthynas broffesiynol. Cyfathrebu'n eglur Y sgiliau i argyhoeddi ac i fod yn strwythuredig ac yn fanwl wrth gyfathrebu, i gael y mwyaf o bob trafodaeth, ac i gytuno ar y camau nesaf cyn gadael pob ymgysylltiad. Gallu cyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig; y sgiliau i gyfathrebu'n effeithiol ag ystod eang o bartneriaid a fydd yn cyfrannu at ddatblygiad parhaus yr ysgol gan gynnwys llywodraethwyr, staff yr awdurdod lleol, tîm y consortiwm rhanbarthol, ac ysgolion neu unigolion sy'n darparu cefnogaeth; y gallu i deilwra'r dull o gyfathrebu ar gyfer anghenion cynulleidfia benodol. Defnyddio tystiolaeth i werthuso ansawdd y ddarpariaeth Y sgiliau i werthuso amrywiaeth o dystiolaeth yn gywir, megis data profion, arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth ac archwiliadau gwaith a	Dulliau effeithiol o ymgysylltu Dealltwriaeth o ymgysylltu'n effeithiol â chydweithwyr o amrywiaeth o wahanol brofiadau a chefnidiroedd proffesiynol; deall sut i greu cyfarfodydd hwyluso a gweithdai effeithiol ac annog pawb sy'n cymryd rhan i gyfrannu. System genedlaethol ar gyfer gwella a chategoreiddio ysgolion Dealltwriaeth gadarn o sut i weithredu'r system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion, gan gynnwys pa bryd y bydd y trefniadau safoni cenedlaethol yn cael eu llunio. Deall y cylch blynyddol newydd ar gyfer gwella ysgolion a gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod hwn wedi ei sefydlu a'i fod yn effeithiol o ran cyflwyno gwelliannau. Bod yn glir ynglŷn â'r amrywiaeth o ddata ansoddol a meintiol y mae ei angen ar gyfer hunanwerthuso; deall pa ddata sydd ar gael i'r cyhoedd a'r hyn sy'n ofynnol gan yr ysgol. Deall y gwahanol fathau o ddata meincnodi. Deall bod angen i berfformiad ragori ar y disgwyliadau yng nghyd-destun ysgolion. Gwerthuso perfformiad ar draws gwahanol gategorïau o ysgolion Deall pa gefnogaeth ac ymyriad sydd ei angen ar ysgolion ar wahanol gyfnodau datblygu.

barnu a yw'r hunanwerthusiad yn gywir ac a fydd yn arwain at wella safonau a darpariaeth yn yr ysgol.

Cefnogi arweinwyr i arsylwi gwersi a gwella ansawdd yr addysgu i fod yn dda neu'n rhagorol

Y sgiliau i arsylwi addysgu a dysgu gydag arweinwyr yr ysgol ac adnabod y cryfderau a'r meysydd y mae angen eu datblygu; rhoi cyngor i arweinwyr ynglŷn â'r hyn y gallant ei wneud er mwyn gwella ansawdd yr addysgu; monitro'r ansawdd dros amser a chefnogi'r ysgol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â gallu;

Hwyluso proses effeithiol o osod targedau

Y sgiliau i weithio gydag ysgol i sicrhau ei bod wedi gosod targedau sy'n briodol o ran her, sy'n uchelgeisiol ac yn realistig ac sy'n debygol o ysbrydoli staff a disgyblion; y gallu i ddadansoddi amrywiaeth o wahanol ddata er mwyn barnu pa un a yw'r broses o osod targedau yn un gadarn ai peidio.

Arwain neu gefnogi sgysiaid anodd a rhoi adborth

Y gallu i roi adborth mewn ffordd adeiladol a chyfleu negeseuon anodd gan barhau i feithrin hyder. Bydd hyn yn gofyn am ddylanwadu a chyd-drafod a defnyddio sgiliau a thechnegau rhyngpersonol er mwyn dod o hyd i dir cyffredin lle y ceir safbwyntiau croes. Cefnogi arweinwyr i wneud hyn.

Ysgrifennu adroddiadau'n glir ac yn gryno

Y sgiliau i fynegi negeseuon allweddol ar ffurf ysgrifenedig yn glir ac yn hyderus, gan gyfleu'r meysydd y nodwyd bod angen eu datblygu a'r manau lle y gwelir cynnydd. Dylai'r ysgrifennu fod yn gryno a darparu gwerthusiad o'r ffeithiau, gan leihau'r posibilrwydd o gamddealltwriaeth.

Deall a dadansoddi data

Y gallu i ddeall sut y mesurir cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion, beth mae'r data hwnnw'n ei ddweud am gynnydd disgyblion a pherfformiad yr ysgol; y sgiliau i ddefnyddio a dehongli amrywiaeth o ddata a dwyn hwn at ei gilydd er mwyn rhoi darlun cyson a llawn gwybodaeth o berfformiad; y gallu i gymharu perfformiad gwahanol

Nodi'r camau nesaf sydd eu hangen er mwyn symud ysgol i gategori uwch a gweithio gyda'r ysgol i gyflawni hyn

Profiad ac arbenigedd ym maes gwella gallu ysgolion fel bod yr ysgol yn symud i gategori uwch; gallu adnabod bylchau yn y perfformiad presennol a darparu cefnogaeth i fynd i'r afael â'r rhain mewn da bryd.

Ymchwil gyfredol ar addysgu a dysgu a nodweddion ymarfer effeithiol

Gwybodaeth am ymchwil gyfredol i addysgu a dysgu a'r hyn sy'n gwneud addysgu a dysgu rhagorol mewn gwahanol bynciau ac ar gyfer gwahanol ystodau oedran. Deall sut i wella ansawdd addysgu trwy gyfrwng cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth a helpu ysgol i ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn cyflawni hynny.

Defnyddio targedau er mwyn cyflymu cynnydd

Gwybodaeth o sut y defnyddir targedau er mwyn ysgogi cynnydd cyflymach; gwybod a yw system ysgol o osod targedau yn un sicr a chadarn; deall mai un strategaeth er mwyn gwella ysgol yw targedau a bod proses o osod targedau yn cyd-fynd â strategaethau gwella eraill.

Strategaethau effeithiol o ran asesu ar gyfer dysgu gan ddefnyddio data ansoddol a meintiol

Gwybod beth yw Asesiad ar Gyfer Dysgu effeithiol a'r amrediad o ddata ansoddol a meintiol sydd ei angen er mwyn i athrawon a dysgwyr ei ddefnyddio i gynllunio eu camau nesaf o ran addysgu a dysgu.

Systemau ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion

Gwybod sut i olrhain perfformiad ysgolion a disgyblion dros gyfnod a sut i ddehongli tueddiadau; gwybodaeth am wahanol systemau olrhain disgyblion a rhoi cyngor i arweinwyr ynglŷn ag addasrwydd y systemau; gwerthuso canfyddiadau'r systemau olrhain am gynnydd disgyblion ac effaith ymyriadau.

Rheoliadau ym maes cymwysterau a'r cwricwlwm

Gwybodaeth am y cwricwlwm a'r trefniadau asesu diwygiedig yng Nghymru a'r dull o'u rhoi ar waith ar gyfer gwahanol ysgolion a grwpiau oedran.

ysgolion ac o fewn ysgolion, ar sail y defnydd o wybodaeth meincnodi, data 'teuluoedd ysgolion' a gwybodaeth gyd-destunol. Rhoi'r cymhelliant i arweinwyr ysgolion wella Y sgiliau rhyngpersonol i annog ac ysbrydoli arweinwyr i ysgogi gwelliant yn eu hysgolion. Sbarduno a hybu trafodaethau sy'n gwneud i arweinwyr deimlo'n hyderus ac yn obeithiol.	Modelau cwricwlwm Gwybodaeth am amrywiaeth o fodelau cwricwlwm a fydd yn denu diddordeb disgyblion a sicrhau safonau uwch; gwerthuso modelau cwricwlwm ysgolion a chynghori ynglŷn â sut i'w gwella. Fframwaith a phroses arolygu Estyn Deall arolygiadau a phroses Estyn. Dylid bod wedi llwyddo yn hyfforddiant arolygu Estyn.
--	--

Agwedd 2: Broceru cefnogaeth ac ymyriad effeithiol

Mae'r agwedd hon yn ymwneud â broceru a hwyluso'r cymorth, yr her a'r ymyriad y mae ar yr ysgol ei angen. Dylai'r cyfraniad amserol hwn at y broses o wella gael ei gynllunio ar y cyd â'r ysgol, a dylai feithrin gallu a gwelliant parhaus.

Sgiliau angenrheidiol	Gwybodaeth ac arbenigedd angenrheidiol
Hwyluso a broceru cefnogaeth Y sgiliau i weithio ar y cyd ag arweinwyr er mwyn nodi anghenion datblygu'r ysgol yn gywir; nodi ysgogiadau allweddol ar gyfer gwelliant a chefnogi'r ysgol i'w gweithredu; broceru partneriaeth a chefnogaeth rhwng ysgolion; argymhell ymyriad radical lle bo angen. Dangos dyfalbarhad a dealltwriaeth bod angen gweithredu ar fyrder er mwyn atal methiant, trwy dynnu sylw uwch swyddogion at bryderon lle bo angen. Canfod adnoddau i ddiwallu anghenion yr ysgol Y sgiliau i werthuso pa gefnogaeth sydd ei hangen a chydweddu adnoddau â blaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys adnoddau ar gyfer arbenigedd pwnc, datblygu arweinyddiaeth, a chefnogaeth i wella addysgu a dysgu; Monitro a gwerthuso effaith Y gallu i olrhain effaith cefnogaeth ac ymyriad yn wrthrychol trwy fesur cynnydd yn ansoddol ac yn feintiol; adnabod y peryglon i'r ysgol pe byddai addysg yn methu. Broceru cefnogaeth rhwng ysgolion Nodi ymarfer effeithiol a hwyluso gwaith partneriaeth; y sgiliau i ddwyn y rhai sy'n rhoi ac yn derbyn cefnogaeth i gyfrif er mwyn sicrhau bod ymyriadau'n digwydd mewn da bryd a'u bod yn llwyddiannus.	Sicrhau bod y gefnogaeth yn cyfateb i allu ac anghenion yr ysgol - creu atebion pwrpasol Deall cyd-destun yr ysgol a nodi ansawdd ac ystod y gefnogaeth sydd ei hangen er mwyn cyflawni gwelliannau; llunio'r gefnogaeth ar y cyd ag arweinwyr yr ysgol Asesu strategaethau ar gyfer gwella addysgu a dysgu ac arweinyddiaeth Cefnogi'r ysgol i arwain gwelliannau ym maes addysgu a dysgu ac arweinyddiaeth, a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r gwelliannau hynny; nodi strategaethau eraill fel y bo'n briodol Cefnogaeth ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder Gwybod sut i ddarparu ymyriad cyflym ac effeithiol gydag ysgolion sy'n peri pryder; sicrhau'r gallu sydd ei angen ym maes arweinyddiaeth er mwyn cyflawni gwelliannau; y gallu i gefnogi gwelliant i ansawdd yr addysgu a'r dysgu; gwybod sut i amseru amrywiaeth o ymyriadau fel bod modd i'r ysgol ddod i ben â nhw. Adnoddau sydd ar gael yn yr Awdurdod Lleol/y rhanbarth/rhywle arall Bod yn gyfarwydd â'r amrywiaeth lawn o wahanol fathau o ymyriadau a chefnogaeth sydd ar gael ar lefel y consortia a lefel yr ysgol, ac sydd wedi cael effaith a brofwyd ar ddeilliannau dysgwyr; gwybodaeth am y grantiau a'r cyllid sydd ar gael i wella ysgolion

	Ymyriadau/adnoddau llwyddiannus i fynd i'r afael â phroblemau Bod â 'chyfres graidd' o adnoddau y profwyd eu bod yn effeithiol o ran gwella addysgu a dysgu ac arweinyddiaeth. Gallai hyn gynnwys y rhaglen Athro sy'n Gwella ac Athro Rhagorol, arwain o'r canol a strategaethau llythrennedd a rhifedd cenedlaethol Cefnogaeth i lywodraethwyr ysgolion Gwybod sut i fonitro a chefnogi cyrff lywodraethu a theilwra hyfforddiant ar gyfer eu hanghenion; sut a pha bryd i ymyrryd yn nhrefn lywodraethu'r ysgol; deall y fframwaith statudol a'r pwerau yn eglur; gwybod sut i greu modelau arweinyddiaeth a lywodraethu cynaliadwy trwy ffederasiynau ysgolion Gwerthuso effaith Deall o fewn pa gyfnod amser y dylai ymyriad neu becyn cymorth penodol gael effaith, a'r amrywiaeth o ddata a gwybodaeth arall y gellir eu casglu bob hanner tymor o leiaf er mwyn mesur yr effaith
--	---

Agwedd 3: Datblygu arweinyddiaeth ysgolion

Mae'r agwedd hon yn ymwneud â sicrhau bod gan bob ysgol dimau arweinyddiaeth cryf a bod talent arweinyddiaeth yn cael ei rheoli. Mae pob ymyriad, cefnogaeth a her yn canolbwyntio ar ddatblygu gallu'r ysgol i'w gwella ei hun o'r tu mewn. Mae'n rhaid i'r ymgysylltiad cychwynnol a'r ymgysylltiad dilynol gydag arweinwyr yr ysgol (sy'n cynnwys y llywodraethwyr) arwyddo, modelu a dechrau'r broses hon o'r cychwyn. Dylai Cynghorwyr Herio alluogi arweinwyr ysgolion i ddod yn arweinwyr dysgu effeithiol yn eu hysgolion eu hunain a thu hwnt.

Sgiliau angenrheidiol	Gwybodaeth ac arbenigedd angenrheidiol
Asesu ansawdd timau arweinyddiaeth ysgolion Y sgiliau i werthuso effaith arweinyddiaeth ar ansawdd y ddarpariaeth yn yr ysgol; ffurfio barn am y cyfraniad y mae pob arweinydd yn ei wneud at welliannau gan gynnwys arweinwyr canol a llywodraethwyr; nodi'r ymyriad a'r gefnogaeth sydd eu hangen er mwyn gwella arweinyddiaeth Sefydlu disgwyliadau uchel Y sgiliau i ysbrydoli arweinwyr ysgol i groesawu disgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr, herio'n adeiladol pan fydd uchelgeisiau'n rhy isel, a chyflwyno safbwynt allanol sy'n rhoi modd i arweinwyr yr ysgol weld y tu hwnt i gyd-destun eu hysgol eu hunain. Gweithio gyda thîm arweinyddiaeth i greu ymdeimlad bod pawb yn rhannu'r un pwrpas, a sefydlu amgylchedd sy'n meithrin hunanwerthusiad myfyrgar a gwelliant. Hyrwyddo uchelgais y gall pawb ei rannu, a datblygu ymddiriedaeth fel bod modd gweithio ynghyd er mwyn gwella. Mentora a hyfforddi, a chefnogi eraill fel mentoriaid a hyfforddwyr Y sgiliau i gefnogi datblygiad arweinwyr ysgol trwy ofyn cwestiynau strwythuredig, ysgogi ffyrdd arloesol o feddwl, annog hunanfyfyrdod, a herio rhagdybiaethau cychwynnol; cefnogi arweinwyr yr ysgol i fentora a hyfforddi eraill	Grymuso arweinwyr ysgolion i wneud penderfyniadau anodd Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r materion sy'n hollbwysig i effeithiolrwydd yr ysgol, cyfathrebu'r rhain, a chefnogi arweinwyr i fynd i'r afael â nhw; gan fynd yn ôl at y materion dan sylw hyd nes y byddant yn cael eu datrys. Awgrymu a hwyluso strategaethau gweithredu megis Adnoddau Dynol. Helpu arweinwyr i ddeall pris osgoi materion anodd. Sicrhau ymrwymiad i wella Cymell ac annog arweinwyr i fod â disgwyliadau uchel ohonynt eu hunain ac eraill; gweithio gydag ysgolion er mwyn sicrhau gweledigaeth a chenhadaeth glir. Cefnogi arweinwyr ysgolion i ddatblygu strategaethau a chymau gweithredu sy'n gwireddu'r weledigaeth hon. Hyfforddi a mentora effeithiol Dealltwriaeth o dechnegau a dulliau sydd wedi eu profi er mwyn manteisio i'r eithaf ar berthynas hyfforddi / mentora; tystiolaeth, sy'n seiliedig ar ymchwil, o rinweddau hyfforddwyr effeithiol; damcaniaeth cefnogi datblygiad ym maes arweinyddiaeth. Deallusrwydd emosiynol Deall damcaniaeth deallusrwydd emosiynol er mwyn gallu asesu'r ddeinameg o fewn y tîm arweinyddiaeth, ac er mwyn helpu i feithrin yr

Modelu a herio arweinyddiaeth

Sicrhau deialog effeithiol a bod â'r sgiliau i ddangos ymarfer effeithiol ym maes arweinyddiaeth ym mhob cyd-destun. Gweithio ar y cyd i nodi'r meysydd y gellid bod angen eu datblygu, a dangos, trwy esiampl, sut y gellid mynd i'r afael â'r meysydd hyn. Y sgiliau i adnabod yn gywir y cryfderau a'r meysydd y mae angen eu datblygu yn nhîm arweinyddiaeth ysgol, a'r gallu i ddangos enghreifftiau o arweinyddiaeth effeithiol.

Datblygu atebolrwydd unigol ac ar y cyd

Annog arweinwyr ysgolion i deimlo'n gyfrifol ac yn atebol yn bersonol am ddeilliannau ar draws yr ysgol gyfan trwy ddatblygu un diagnosis cryf ar y cyd o'r hyn sydd angen ei wella, targedau perfformiad clir, a thrwy ddatblygu eu hyder yn eu gallu eu hunain i wneud gwahaniaeth. Dwyn arweinwyr ysgolion ar bob lefel i gyfrif am y safonau y mae'r ysgol yn eu cyflawni, ac adlewyrchu hyn yn y dyfarniadau a wneir ynglŷn â'r arweinyddiaeth

Defnyddio tystiolaeth i adolygu perfformiad ac effaith

Y sgiliau i ddefnyddio'r broses adolygu perfformiad ffurfiol ar gyfer penaethiaid i ysgogi sgwrs barhaus ac adeiladol ynglŷn â datblygiad a chynnydd yn y dyfodol. Defnyddio data ynglŷn â pherfformiad a deilliannau i ffurfio barn am yr effaith a'r cynnydd.

Hwyluso a chefnogi

Y sgiliau i gefnogi eraill i fod yn fwy effeithiol yn eu swyddi trwy ddatblygu eu hyder a'u gallu, gweithredu fel ffynhonnell cefnogaeth a gwybodaeth arbenigol, a rhoi modd i grwpiau ddod ynghyd i fynd i'r afael â materion cyffredin trwy ddulliau arbenigol o hwyluso; cefnogi arweinwyr ysgolion i arwain y broses o gyflwyno gwelliannau a bod yn atebol am effaith eu gwaith ar ddarpariaeth yr ysgol a deilliannau disgyblion.

amgylchiadau addas fel bod pobl yn ymddiried yn ei gilydd, yn rhannu cyfalaf ac yn eu cefnogi'i gilydd.

Arweinyddiaeth effeithiol i'r ysgol

Gwybodaeth a dealltwriaeth o arweinyddiaeth hyfforddiadol effeithiol ar gyfer ysgolion. Nodweddion arweinyddiaeth a thimau arweiniol sydd wedi cyflawni a chynnal rhagoriaeth; deall sut y gellir meithrin y nodweddion hyn a'u hymwreiddio mewn timau arweinyddiaeth llai effeithiol. Cefnogi arweinwyr i sicrhau bod swyddogaethau a chyfrifoldebau arwain yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu a deilliannau disgyblion. Cefnogaeth i arweinyddiaeth ymhlith llywodraethwyr.

Cynllunio strategol

Sut i asesu cynllun datblygu neu gynlluniau strategol eraill yr ysgol, a chydweddu'r rhain â pherfformiad presennol yr ysgol. Sicrhau bod cynlluniau'n cynnwys meini prawf eglur ar gyfer gwella, a bod modd dangos effaith y cynlluniau trwy'r meini prawf hynny. Deall yr angen i weithredu gwelliannau mewn da bryd ac adlewyrchu hynny yn y cynlluniau gwella.

Gofynion a meini prawf adolygu perfformiad

Dealltwriaeth fanwl o'r system a ddefnyddir i adolygu perfformiad penaethiaid, sylfaen statudol y system hon, yr amserlenni blynyddol ar gyfer adolygu perfformiad a swyddogaethau gwahanol bartneriaid yn y broses adolygu, gan gynnwys llywodraethwyr. Yn ogystal, monitro trefniadau rheoli perfformiad aelodau staff yr ysgol.

Deall swyddogaethau'r consortia rhanbarthol a chyfrifoldebau statudol yr Awdurdod Lleol

Dealltwriaeth glir a manwl o'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion, gan gynnwys swyddogaethau'r consortia, cyfrifoldebau statudol yr Awdurdod Lleol, swyddogaethau cyrff llywodraethu, cadeiryddion llywodraethwyr, aelodau etholedig lleol; dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r swyddogaethau hyn wedi datblygu'n ddiweddar fel bod modd rhagweld ac ymdrin ag unrhyw gamddealltwriaeth.

	Perfformiad a systemau da ac ardderchog Dealltwriaeth o nodweddion allweddol systemau addysg uchel eu perfformiad; tystiolaeth, seiliedig ar ymchwil, o gamau'r broses o ddiwygio systemau, a strategaethau gwella lleol a rhanbarthol, a gwella ysgolion; sut i ddefnyddio data meincodi cymharol i herio perfformiad a disgwyliadau. Cynllunio ar gyfer olyniaeth, rheoli talent, modelau arweinyddiaeth effeithiol gan gynnwys arweinyddiaeth swyddogion gweithredol Deall yr amrywiaeth o fodelau arweinyddiaeth sydd wedi eu sefydlu mewn systemau uchel eu perfformiad. Cefnogi ysgolion i ddatblygu strategaeth ar gyfer cynllunio olyniaeth a chanfod talent ym maes arweinyddiaeth ar lefel leol a lefel arweinwyr. Cefnogi awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i greu modelau arweinyddiaeth mwy cynaliadwy, megis ffederasiynau a phartneriaeth gyda phrifathrawon gweithredol.
--	---

Agwedd 4: Meithrin gallu rhwng ysgolion

Mae'r agwedd hon yn ymwneud â chefnogi ysgolion i'w cefnogi'i gilydd, a hwyluso'r broses. Mae hon yn agwedd hanfodol ar y model newydd ar gyfer gwella ysgolion gan ei fod yn meithrin gallu ar draws y system ac yn creu systemau cymorth credadwy ac effeithiol rhwng ysgolion.

Sgiliau angenrheidiol	Gwybodaeth ac arbenigedd angenrheidiol
Gwerthuso gallu ysgolion da a nodi ffyrdd y gallant gefnogi ysgolion eraill Y sgiliau i asesu gallu'r ysgol ac i ba raddau y gall drosglwyddo ymarfer effeithiol i ysgolion eraill. Rhoi cyngor i ysgolion da ac ardderchog ynglŷn â meithrin gallu er mwyn cefnogi ysgolion eraill. Datblygu strategaethau er mwyn symud ysgolion da i fyny i fod yn ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol Sgiliau i nodi meysydd allweddol i'w gwella a sicrhau ymrwymiad timau arweinyddiaeth i fynd i'r afael â'r meysydd hyn; cefnogi arweinwyr ysgolion i gredu y gallant fod yn rhan o grŵp o ysgolion sy'n arwain y system Datblygu rhaglenni gydag ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol ac ysgolion eraill er mwyn gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu a meithrin gallu ym maes arweinyddiaeth Y gallu i weithio ar y cyd i greu amrywiaeth o raglenni cyffredinol y gall ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol eu defnyddio i ddatblygu arweinyddiaeth ac addysgeg mewn ysgolion eraill	Cefnogaeth ac ymyriad a arweinir gan yr ysgol Dealltwriaeth glir o sut y gall cefnogaeth rhwng ysgolion fod yn effeithiol, yn seiliedig ar arfer gorau a brofwyd; dealltwriaeth o sut i adnabod ysgolion sydd â'r rhinweddau cywir a dyfnder y gallu arweinyddiaeth er mwyn darparu cefnogaeth; gwybodaeth gyfredol am allu ac awydd ysgolion yn lleol. Datblygu partneriaethau er mwyn gwella gallu Gwybod sut i hwyluso partneriaethau rhwng ysgolion a sefydlu dull cyffredin o gyflwyno gwelliannau; gwybod sut i sicrhau ymgysylltiad a gofalu bod yr ysgolion yn cytuno ynglŷn â strategaethau a chymau gweithredu a'u bod yn cael eu cyflwyno mewn da bryd Arweinyddiaeth ardderchog ar gyfer yr ysgol Gwybod sut beth yw ysgol ardderchog a sut i gynnal a chynyddu ei datblygiad Meini prawf ar gyfer ysgolion ardderchog/ ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol Deall beth yw'r meini prawf a rhoi'r rhain ar waith mewn ysgolion perthnasol. Creu a datblygu mwy o ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol Creu neu ddatblygu rhaglenni a fydd yn cefnogi ysgolion ardderchog i fod yn ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol